



9 Chwefror 2021

Annwyl Gyfaill

Hyblygrwydd Dros Dro: Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018

Fe wnaethon ysgrifennu atoch ym mis Tachwedd i roi gwybod ichi y byddai'n ofynnol, o 8 Tachwedd, i bob darpar ofalwr maeth, sy'n gwneud cais i ymuno â'r system, gael asesiad o bell neu asesiad wyneb yn wyneb gan feddyg teulu yn ystod y broses asesu, cyn i'r cais symud ymlaen at y panel maethu. Hefyd fe wnaethom gadarnhau y byddai'n rhaid i bob gofalwr maeth, a oedd wedi cael ei gymeradwyo drwy ddefnyddio ffurflen iechyd hunanddatgan, gwblhau asesiad iechyd llawn i oedolion, ac y byddai'n rhaid i'r gwasanaeth gwblhau adolygiad o'r gymeradwyaeth, o dan broses adolygu reoleiddiol y flwyddyn gyntaf, a hynny erbyn 31 Mawrth 2021.

Yng Nghymru, cymerwyd camau cadarnhaol i sicrhau bod mynediad at yr asesiadau hyn gan feddygon teulu yn parhau, naill ai wyneb yn wyneb neu o bell, ac rwy'n gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r sector wedi cydweithio i alluogi hynny.

Fodd bynnag rydym yn ymwybodol bod meddygfeydd o dan bwysau ychwanegol oherwydd y rhaglen frechu, ac y bydd yn anodd cadw at y dyddiad cau ar gyfer cynnal asesiadau meddygol llawn erbyn 31 Mawrth. Hefyd bydd pwysau ychwanegol ar baneli maethu gan y bydd angen iddynt gwblhau mwy o adolygiadau ar gyfer y gofal maeth a gafodd ei gymeradwyo dros dro.

Oherwydd hynny, hoffem gynnig estyniad o wyth wythnos ar y dyddiad cau o 31 Mawrth 2021. Felly, yn lle'r dyddiad hwnnw, bydd yn rhaid i bob gofalwr maeth, sydd wedi cael ei gymeradwyo drwy ddefnyddio ffurflen iechyd hunanddatgan, gwblhau asesiad iechyd llawn i oedolion, a bydd yn rhaid i'r gwasanaeth gwblhau adolygiad o'r gymeradwyaeth a roddwyd, erbyn 28 Mai 2021, a hynny o dan broses adolygu reoleiddiol y flwyddyn gyntaf.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at leihau'r pwysau sydd ar y sector ar hyn o bryd. Hoffwn ddiolch ichi bob un am eich gwaith caled a'ch cymorth parhaus yn ystod y pandemig.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alistair Davey', enclosed within a thin black rectangular border.

Alistair Davey *MA Chartered FCIPD*
Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio